

**Datganiad y Fforwm Rhyngseneddol**

**27 Hydref 2023**

Cyfarfu y Fforwm Rhyngseneddol am y pedwerydd tro ar 27 Hydref 2023 yn Senedd yr Alban. Cadeiriwyd y cyfarfod gan Clare Adamson ASA, Cynullydd Pwyllgor y Cyfansoddiad, Ewrop, Materion Allanol a Diwylliant a mynychwyd y cyfarfod gan gynrychiolwyr o Dŷ’r Cyffredin, Senedd Cymru, a Thŷ’r Arglwyddi. Roedd swyddog o Gynulliad Gogledd Iwerddon hefyd yn bresennol fel sylwedydd.

Croesawyd pawb oedd yn bresennol i Senedd yr Alban gan y Llywydd, Alison Johnstone ASA.

Yn dilyn diweddariadau gan bob deddfwrfa, trafododd y Fforwm heriau parhaus yn ymwneud â chysylltiadau rhynglywodraethol gan gynnwys gweithredu Deddf Marchnad Fewnol y DU, a chraffu ar waith rhynglywodraethol. Nodwyd bod yr angen cynyddol am weithio rhynglywodraethol effeithiol wrth reoli'r amgylchedd rheoleiddio ledled y DU y tu allan i'r UE yn parhau i godi heriau sylweddol wrth ddod i gytundeb rhwng llywodraethau'r DU.

Nodwn ymhellach y bu rhywfaint o gynnydd wrth fynd i'r afael â'r heriau hyn drwy sicrhau mwy o dryloywder yn yr adroddiadau

ynghylch gweithgareddau rhynglywodraethol. Fodd bynnag, ar draws pob un o’n deddfwrfeydd codwyd pryderon mewn perthynas â thryloywder a chraffu ar Fframweithiau Cyffredin yn y dyfodol. Rydym yn cydnabod bod cytundeb rhynglywodraethol i ddarparu adroddiad blynyddol ar gyfer pob Fframwaith unwaith y bydd y rhain wedi’u gweithredu’n llawn. Fodd bynnag, dim ond un Fframwaith sydd wedi’i gytuno’n llawn ac ni luniwyd adroddiadau ar weithrediad y Fframweithiau eraill.

Cytunwyd i ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Gweinidog Cysylltiadau Rhynglywodraethol, Ysgrifennydd y Cabinet dros y Cyfansoddiad, Materion Allanol a Diwylliant a'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad yn gofyn am ddarparu adroddiadau blynyddol i bob deddfwrfa ar bob Fframwaith dros dro yn ychwanegol at y rhai y cytunwyd arnynt yn llawn.

Buom hefyd yn cyfnewid barn ar gysylltiadau rhynglywodraethol ag Angus Robertson ASA, Ysgrifennydd y Cabinet dros y Cyfansoddiad, Materion Allanol a Diwylliant.

Roedd yr unigolion a ganlyn yn bresennol:

Clare Adamson ASA, Cynullydd Pwyllgor y Cyfansoddiad, Ewrop, Materion Allanol a Diwylliant

Y Farwnes Andrews, Cadeirydd y Pwyllgor Fframweithiau Cyffredin, Tŷ'r Arglwyddi

Yr Arglwydd Hope o Craighead, Aelod o’r Pwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin, Tŷ’r Arglwyddi a Phwyllgor y Cyfansoddiad, Tŷ’r Arglwyddi

Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Senedd Cymru

Llyr Gruffydd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Senedd Cymru

Robin Millar AS, Aelod o’r Pwyllgor Materion Cymreig, Tŷ'r Cyffredin

Pete Wishart AS, Aelod o’r Pwyllgor ar Faterion yr Alban, Tŷ'r Cyffredin

William Wragg AS, Cadeirydd y Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol, Tŷ'r Cyffredin